# Rhaglen

**Haf 2024**



**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

**WWW.RWCMD.AC.UK**

**Mae dathliadau ein pen-blwydd yn 75 oed yn dechrau gyda haf o gynyrchiadau a gwyliau gwych sy'n amlygu cyflawniadau ein myfyrwyr sy'n graddio ac yn benllanw eu teithiau trawsnewidiol drwy'r Coleg.**

Beth am ymuno â ni am wydraid o ddiod pefriog am ddim ar noson agoriadol *Sweet Charity* a phrofi doniau ein hisraddedigion Theatr Gerddorol yn eu sioe olaf; ac mae rhagor o gyfleoedd i fwynhau cynyrchiadau cerddorol ac operatig gyda *Little Women* a'r hudolus *A Midsummer Night's Dream*.

Mae ein tymor o wyliau yn agor gyda gŵyl *Awyrgylch*, gwledd o gerddoriaeth newydd ac mae'n parhau gyda thymor *NEWYDD*, sydd eleni'n dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed o fod ar flaen y gad ym myd ysgrifennu newydd. Mae Gŵyl AmserJazzTime yn rhoi llwyfan i berfformwyr mwyaf gwefreiddiol Cymru, y DU a thu hwnt, ynghyd ag artistiaid gwadd a fydd yn cynnwys Claire Martin a Binker Golding.

Gan lansio partneriaeth newydd gyffrous rhwng cerddorfeydd WNO a CBCDC, mae *Masquerade* yn cyflwyno noson ddyrchafedig o gerddoriaeth sy'n dathlu rhai o gyfansoddwyr benywaidd mwyaf blaenllaw'r byd.

Mae llawer mwy hefyd, o bypedwaith a chynllunio i ddatganiadau piano a cherddoriaeth siambr ac edrychwn ymlaen at eich gweld chi'n dathlu gyda ni!

**www.rwcmd.ac.uk/booking-information** i gael rhagor o wybodaeth am docynnau, sut i ddod o hyd i ni, archebion grwpiau ac ysgolion a mwy. Neu gallwch anfon e-bost atom yn **boxoffice@rwcmd.ac.uk**

Mae ein Café Bar yn cynnig amrywiaeth eang o fwyd, cacennau a diodydd, ac mae nawr ar agor cyn perfformiadau ac yn ystod yr egwylion. Cadwch lygad am ein Bwydlen Danteithion Bach a'n Cyfuniad Diod a Byrbryd.

**Wyddoch chi?** Mae fersiwn sain a phrint bras o'r llyfryn hwn ar gael. Ewch i: **www.rwcmd.ac.uk/access-guide**.

Rydym yn rhan o gynllun cenedlaethol o'r enw Hynt sy'n rhoi'r arfer gorau oll i gwsmeriad o ran polisi tocynnau teg a hyrgyrchedd.

Diolch i nawdd hael gan Unite Students, mae gan unrhyw fyfriwr sy'n byw mewn llety Unite yng Nghaerdydd hawl i docyn am £3. Chwiliwch am y symbol Unite i weld y digwyddiadau sy'n berthnasol.

Rydym yn falch o fod yn Bartner Cydnabyddiaeth Credydau Amser Tempo, sy'n cynnal cynllun gwobrwyo a chydnabyddiaeth ar gyfer gwirfoddolwyr yn y gymuned. Gallwch ddarganfod mwy yn **www.wearetempo.org**

## Contents

3 Digwyddiadau am ddim
4 NEWYDD '24
6 Theatr Gerddorol
8 Cynllunio
9 Opera
10 Awyrgylch
12 Gŵyl AmserJazzTime
14 Piano
15 Gŵyl Gerddoriaeth Siambr Penarth
16 Cerddorfaol
17 Cerddorfa WNO a CBCDC
18 Corau Cymunedol
19 Gwobrau a chystadlaethau
20 Ymuno i mewn

**Maes y Castell, Parc Cathays, Caerdydd 029 2039 1391**

**Archebwch Ar-lein: rwcmd.ac.uk/cy/whats-on**

**Cefnogir y rhaglen perfformiadau myfyrwyr gan *Cyswllt* rwcmd.ac.uk/support-us**

**Llun Clawr: Antigone Blackwell, AmserJazzTime 2024 Llun gan Kirsten McTernan**








## AmserJazzTime

**Gwe 26 Ebrill – Gwe 28 Mehefin 5.30pm**

Y ffordd ddelfrydol i ddechrau eich penwythnos. Ymunwch â ni ar gyfer ein clwb jazz wythnosol gyda'r genhedlaeth nesaf o sêr.

**Cyntedd Carne**
**Mynediad am Ddim**

## Arddangosfa Propiau Anferth

**Maw 23 Ebrill – Mer 22 Mai**

Meddyliwch yn fawr! Bydd arddangosfa propiau hynod fawr eleni yn dathlu pen-blwydd CBCDC yn 75 oed. Maent wedi'u creu gan ein myfyrwyr Cynllunio ar gyfer Perfformio yn dilyn prosiect gwneud propiau dros gyfnod o bedair wythnos, gyda chynaliadwyedd amgylcheddol yn ganolog iddo.


**Oriel Linbury**
**Mynediad am Ddim**

## Arddangosfa o ddetholiad o waith celf o 'Croeso i Gymru' gan Pamela Howard

**Iau 2 Mai–Gwe 17 Mai**

**Oriel Linbury**
**Mynediad am Ddim**

Cefnogir gan Ymddiriedolaeth Linbury



## Cabaret yn y Coleg

**Mer 15 Mai 6pm**

Ymunwch â ni am ddetholiad o ddanteithion lleisiol o'r sioeau cerdd yn cael eu perfformio gan ein cantorion theatr gerddorol.

**Cyntedd Carne**
**Mynediad am Ddim**

## Bar Sain

**Sad 4 Mai 5.30pm**
**Iau 27 Mehefin 6pm**

Darganfyddwch gerddoriaeth newydd gan fyfyrwyr a staff ein hadran gyfansoddi.

**Cyntedd Carne**
**Mynediad am Ddim**

Ewch i **dudalen 10** i ddarllen am ragor o gerddoriaeth am ddim yng Nghyntedd Carne fel rhan o ŵyl Awyrgylch 2024.



## Caffi Clasurol: Côr Sacsoffonau

**Mer 26 Mehefin 6pm**

Bydd sacsoffonau soniarus yn ein serenadu, cyn ein sioe symffonig dan arweiniad yr unawdydd sacsoffon o fri rhyngwladol Gerard McChrystal.

**Cyntedd Carne**
**Mynediad am Ddim**

NEW NEWYDD '24

CWMNI RICHARD BURTON COMPANY

Croeso i ŵyl ysgrifennu newydd flynyddol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, sy'n cynnwys pedwar comisiwn newydd gan rai o ddramodwyr mwyaf cyffrous y DU.


Simon Longman


Isley Lynn


Rhiannon Boyle


Paula B Stanic

**Rhiannon Boyle**
**Simon Longman**
**Isley Lynn**
**Paula B Stanic**

## Falling Falling Falling Falling

gan **Simon Longman**
**Andy Whyment** cyfarwyddwr

Drama am gyfathrebu yw hon. Ac unigrwydd. A'r byd. Anrhefn erchyll llwyr y byd. A'ch lle o fewn hynny. Eich lle yn hynny i gyd. Chi a'r byd. Y byd hwn sy'n dymchwel. Beth yw eich lle yn hynny? Rydych yn meddwl am hynny wrth i chi gael diod gyda rhywun nad ydych chi erioed wedi cwrdd â nhw o'r blaen. Bydd hynny'n eich angori i rywbeth, yn eich barn chi. Rhywbeth. Unrhyw beth. Canolbwyntiwch ar bâr arall o lygaid, os gallwch. Mae popeth yn dymchwel o'ch cwmpas. Ond dim ond canolbwyntio ar y llygaid. Dyna'r cyfan y gallwch chi ei wneud, ie?

**Theatr Richard Burton**

## Dissonance

gan **Paula B Stanic**
**Anastasia Osei-Kuffour** cyfarwyddwr

Ref, protest i 'ddifa'r mesur cyfiawnder troseddol' a noson a fydd â chanlyniadau am ddegawdau i ddod. Gan symud rhwng 1994 a 2023 mae'r ddrama'n archwilio pwysigrwydd protest, sut mae pob cenhedlaeth yn cael ei beio gan y nesaf am beidio â gwneud digon, a pham mae angen i ni wrando ar ein gilydd.

**Theatr Bute**
Mewn cydweithrediad â **Paines Plough**

## The Glue

gan **Isley Lynn**
**Debbie Hannan** cyfarwyddwr

Criw o ffrindiau llawn hwyl yw The Glue nad ydynt wedi bod gyda'i gilydd ers graddio. Felly, pan fyddant yn dod ynghyd o'r diwedd mewn Airbnb yng nghefn gwlad, maent awchu i'w fyw fel yr arferent wneud. Ond mae'r grŵp clos hwn ar fin sylweddoli nad yw'r cysylltiad rhyngddynt mor gryf ag y tybient...

**Theatr Bute**

## Couple Goals

gan **Rhiannon Boyle**

Dychan sinistr sy'n procio'r meddwl lle mae tri chwpl Cenhedlaeth Z, sy'n ymddangos yn bobl gyffredin, yn cael eu gwthio i fyd swreal y sioe deledu realiti Couple Goals. Wrth i bob elfen o'u bywydau gael eu gwyntyllu, mae'r cystadleuwyr yn cyrraedd pen eu tennyn. Maent yn cael eu bychanu a'u trawmateiddio, ond pwy sydd ar fai - y cystadleuwyr naïf, y cynhyrchwyr ystrywgar neu ni, y gynulleidfa sy'n mwynhau'r gwylio?

**Theatr Richard Burton**
Mewn cydweithrediad â **Theatr Sherman**

CBCDC, Caerdydd
**24–31 Mai**
Young Vic, Llundain
**5–14 Mehefin**

Tocynnau £6–£12


Oed 14+






# Lleisiau Newydd '24


Stella Elliott-Fortnum


Joe Flynn


Liam Whiting

**Tri myfyriwr actio blwyddyn olaf CBCDC yn cyflwyno eu gwaith eu hunain fel rhan o NEWYDD '24, gŵyl ysgrifennu newydd flynyddol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.**

**Roxana Silbert** cyfarwyddwr ymgynghorol

## Knock Knock

gan **Liam Whiting**

'Doedd 2008 ddim yn flwyddyn wych i fod yn werthwr tai oedd hi?'

Stiwdio Caird

## Over Your Dead Body

gan **Joe Flynn**

Mae seicolegydd troseddol benywaidd yn gwneud cysylltiad brawychus â charcharor gwrywaidd drwg-enwog; pa amgylchiadau sy'n arwain at ffurfio'r cwlwm cryf hwn a beth yw gwirioneddau'r cysylltiad, y tu fewn a thu allan i'r ystafell gyfweld? Stori seicolegol am demtasiwn ac achubiaeth sy'n gofyn y cwestiwn - a yw maddeuant yn berthnasol i bawb, gan gynnwys y rheini sy'n gwneud yr anfadeuol?

Stiwdio Caird

## Trouble In Paradise

gan **Stella Elliott-Fortnum**

Mae Jen yn 21 oed. Merch trin gwallt yw hi o Dde Ddwyrain Llundain ac mae ganddi freuddwydion mawr. Ar ôl creu dilyniant cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ei gwaith, mae'n gwneud cais i fynd ar sioe deledu realiti boblogaidd ar gyfer detio er mwyn cael mwy o sylw i'w phlatfform. Mae ei mam yn poeni y gallai gael ei hecsbloetio; ond mae Jen, gan ei bod yn bendant nad yw teledu realiti yr hyn a arferai fod, yn arwyddo ei chontract ac yn hedfan i Mallorca am haf o serch... wedi'r cyfan, does ganddi hi ddim byd i'w golli a phopeth i'w ennill... wir?

Stiwdio Caird

CBCDC, Caerdydd
**28–31 Mai**
Young Vic, Llundain
**5–12 Mehefin**

Tocynnau £4–£8

CWMNI RICHARD BURTON COMPANY

Iau 23 Mai–Mer 29 Mai 7pm
Sad 25 a Mer 29 Mai 2pm
*Capsiynau* Maw 28 Mai 7pm
Dim perfformiad ddydd Sul

CAP




Llyfr gan **NEIL SIMON** Cerddoriaeth gan **CY COLEMAN**
Geiriau gan **DOROTHY FIELD**

**HANNAH NOONE** cyfarwyddwr **BARNABY SOUTHGATE** cyfarwyddwr cerdd
**MARK SMITH** coreograffydd

Mae'r truenus ond digynnwrf Charity Hope Valentine yn chwilio'n daer am gariad yn Ninas Efrog Newydd yn y 1960au. Yn y gomedi gerddorol afieithus, grŵfi, ddoniol hon, mae Charity yn ceisio dro ar ôl tro i wireddu ei breuddwyd a gwneud rhywbeth ohoni'i hun.

Un o sioeau enwocaf y cyfarwyddwr/coreograffydd chwedlonol Bob Fosse ac yn cynnwys sgôr llawen gyda chaneuon poblogaidd fel 'Big Spender' a 'The Rhythm of Life'.

Yn seiliedig ar sgript wreiddiol gan
**FEDERICO FELLINI**, **TULLIO PINELLI** ac **ENNIO FLAIANO**
Cynhyrchwyd ar gyfer llwyfan Broadway gan **FRYER, CARR A HARRIS**
Lluniwyd, Llwyfannwyd a Choreograffwyd gan **BOB FOSSE**

**Tocynnau £10-£20**
**Theatr y Sherman**
Cefnogir y perfformiad capsiwn hwn gan raglen CultureStep Celfyddydau a Busnes Cymru ac Unite Students.

**Gostyngiad o 20%** pan fyddwch yn archebu tocynnau ar gyfer Sweet Charity a Little Women mewn un trafodiad

# Ymunwch â ni...

Ymunwch â ni ar y noson agoriadol a chodi gwydraid i ddathlu pen-blwydd y Coleg yn 75 oed.







Make me a Song: The Music of William Finn, Mawrth 2024

## Arddangosfa Theatr Gerddorol

Oed 16+

**Caerdydd: Llun 6 Mai 7.30pm**
**Caerdydd: Mawrth 7 Mai 1pm**
**Llundain: Mercher 8 Mai 1pm**

**James Williams** cyfarwyddwr
**David Laugharne** cyfarwyddwr cerdd

Cyfle i fwynhau monologau, deuawdau a chaneuon cwmni o rai o ffefrynnau'r sioeau cerdd gorau erioed, wedi'u cyflwyno gan ein perfformwyr theatr gerddorol dawnus.

**Theatr Richard Burton**
**Tocynnau £6-£12**

**Gostyngiad o 20%** pan fyddwch yn archebu tocynnau ar gyfer Sweet Charity a Little Women mewn un trafodiad

## Little Women The Broadway Musical

CAP

**Iau 27 Meh–Maw 2 Gorff 7.15pm**
***Captioned* Llun 1 Gorff 7.15pm**
**Dim perfformiad ddydd Sul**
**Sad 29 Meh a Maw 2 Gorff 2pm**

Cerddoriaeth gan **Jason Howland**
Geiriau gan **Mindi Dickstein**
Llyfr gan **Allan Knee**
Yn seiliedig ar nofel gan **Louisa May Alcott**

**Rachel Heyburn** cyfarwyddwr
**Barnaby Southgate** cyfarwyddwr cerdd
**Justin Sparkes** coreograffydd

Daw'r stori oesol hon, sy'n seiliedig ar fywyd Louisa May Alcott, yn fyw yn y sioe gerdd hynod lwyddiannus hon sy'n dilyn anturiaethau'r chwiorydd, Jo, Meg, Beth ac Amy March. Mae'r sioe gerdd arobryn hon yn cynnwys sgôr bwerus sy'n esgyn â synau darganfyddiad personol, torcalon a gobaith.

**Theatr y Sherman**
**Tocynnau £10-£20**

Cyflwynir y cynhyrchiad amatur hwn trwy drefniant gyda Music Theatre International. Mae'r holl ddeunyddiau perfformiad awdurdodedig hefyd yn cael eu cyflenwi gan MTI **www.mtishows.co.uk**

Arddangosfa

## Balance

**Oriel Linbury CBCDC, Caerdydd: Mer 12 Mehefin–Maw 18 Mehefin**

**Bargehouse, Llundain: Gwe 28 Mehefin–Sul 30 Mehefin**

Mae Balance yn arddangos gwaith 40 o fyfyrwyr cynllunio a rheoli llwyfan sy'n graddio, ac yn cynnwys cynlluniau a grëwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer cynyrchiadau, prosiectau a ffilmiau a wnaed yn y Coleg.

Mae'r arddangosfa flynyddol hon yn agor yn Oriel Linbury a Theatr Bute, cyn symud i'r Bargehouse ar y South Bank yn Llundain, gan ddod â gwaith yr ymarferydd cynllunio creadigol unigol a'r artist cydweithredol gyda hi.

**Mynediad am Ddim**



Pypedwaith

## Spawn!

**Perfformiadau i Ysgolion**
**Mer 26 Mehefin 10am a 1.15pm**
**Iau 27 Mehefin 10am a 1.15pm**

**Perfformiadau Cyhoeddus**
**Sad 29 Mehefin 11am a 2.30pm**
**Sul 30 Mehefin 11am a 2.30pm**

Stori gan **Lucy Hall**
Dyfeisiwyd gan **Elliot Ditton** a **Lucy Hall** gyda **myfyrwyr CBCDC**

Yn hwyr yn y nos mae Cerys yn chwarae ar ei gêm fideo newydd pan fydd yn datblygu gwall disgwyliedig. Gan ddringo drwy'r lefelau ac ennill gwobrau, mae hi'n epilio afatar brogaod sy'n fwy nag yr oedd hi'n ei ddisgwyl! Mae bydoedd digidol a chorfforol yn gwrthdaro â grifft yn yr ystafell wely, penbyliaid yn y gegin a pharti pen-blwydd broga barus.

Allwch chi helpu Cerys i gael y brogaod gwallgof hyn i neidio yn ôl i'r Xbox?!

Perfformiad o adrodd straeon gweledol a cherddorol wedi'i greu ar gyfer rhai 4-9 oed ond sy'n addas i bawb!

Cynhwysir sesiwn holi ac ateb fer a chyfle i gwrdd â'r pypedau fel rhan o'r perfformiad.

**Yr Hen Lyfrgell**
**Tocynnau £5-£12**
**Hyd y perfformiad: 1 awr**

CAP






**Mae Ysgol Opera David Seligman yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn darparu un o'r profiadau hyfforddiant opera mwyaf integredig sydd ar gael yn unrhyw le yn y byd.**

## Bizet: Doctor Miracle

**Maw 2 Gorffennaf 7.30pm**

**Isabelle Carlean-Jones** cyfarwyddwr
**Tom Blunt** cyfarwyddwr cerdd

Ffars gartrefol yw ymgais gyntaf Bizet ar waith opera, Doctor Miracle, sy'n arddangos dawn Bizet ar gyfer alaw gyfareddol yn ogystal â'r Pedwarawd Omelette – peidiwch â mynd â'r rysáit adref!

**Neuadd Dora Stoutzker**
**Tocynnau £6-£12**

UNITE STUDENTS

## Britten: A Midsummer Night's Dream

**Gwe 28 Mehefin 7pm**
**Sad 29 Mehefin 7.15pm**
**Llun 1 a Maw 2 Gorffennaf 7pm**

**Matthew Eberhardt** cyfarwyddwr
**James Southall** cyfarwyddwr cerdd


*'The course of true love never did run smooth…'* (Lysander, Act 1)

Ymunwch â ni am wallgofrwydd canol haf wrth i fydoedd hudolus Shakespeare gymysgu a gwrthdaro yn y gomedi llawn gwallau hon sy'n cynnwys fersiwn arbennig o sgôr Britten ar gyfer y piano, offerynnau taro a celeste.

**Theatr Richard Burton**
**Tocynnau £11-£22**

UNITE STUDENTS





Ymunwch â ni ar gyfer ein gŵyl o gerddoriaeth newydd, sy'n cynnwys perfformiad cyntaf cylch caneuon Mark Boden ac amrywiaeth eang o berfformiadau a gosodiadau gan ein hadran gyfansoddi.

## Ćmi sie

Gwe

**Gwe 3 Mai 7.30pm**

**Ania Drewniok** cyfansoddwr

**Mewn cydweithrediad â cherddorion Jazz CBCDC**

Mae Ania yn archwilio bydoedd sain cyfoethog Silesia a Gwlad Pwyl drwy gyfansoddiadau jazz a gwerin gwreiddiol o'i EP *Ćmi sie*, sef Sileseg am 'mae'n tywyllu', a threfniannau newydd o ganeuon y dysgodd ei *babcia* (mam-gu) iddi.

Neuadd Dora Stoutzker

## Jericho @ The Weepers Glade

**Gwe 3 Mai 8.30pm**

**Ella Pearson** cyfansoddwr

Yn llawn cerddoriaeth ôl-bync, roc a melancolaidd tywyll, bydd y stori werin-arswyd hon yn cael ei hadrodd drwy gyfrwng fideo, animeiddiad stop-symud a gwaith celf digidol.

Theatr Bute

Gostyngiad o **20%** pan fyddwch yn archebu tri neu fwy o gyngherddau £5 **Tocynnau £5**

## The Meaning(less) of Life

Sad

**Sad 4 Mai 7pm**

**Charlotte McGregor-Graham** cyfansoddwr

Wedi'i addasu o fonolog Shakespeare 'All the world's a stage', mae albwm cysyniad cyntaf Charlotte McGregor-Graham yn dilyn y prif gymeriad drwy bob cam o'i fywyd, wrth iddo geisio canfod ei le mewn cymdeithas a gwneud synnwyr o'r byd.

Neuadd Dora Stoutzker

## The Nightingale

**Sad 4 Mai 8pm**

**Yutong (Linette) Lou** cyfansoddwr

**Yijing Chen** cyfarwyddwr

Mae'r perfformiad dawns cydweithredol a arweinir gan gerddoriaeth wedi'i osod yn hen Frenhinllin Tang Tsieina. I gyd-fynd â cherddorfa fechan o offerynnau gorllewinol a thraddodiadol Tsieineaidd ceir delweddau gweledol ar gyfer yr addasiad hwn o stori dylwyth teg Hans Christian Andersen 'The Nightingale'.

Theatr Bute

## Earth Voices

**Sad 4 Mai 2.30pm**

**Mark Boden**
voices of earth

**Darcy Cole**
through dreams

**John Hardy**
redmoonsong

Bydd perfformiad cyntaf cylch caneuon newydd Mark Boden ar gyfer y soprano Elizabeth Atherton, gyda thestunau wedi'u hysbrydoli gan y byd naturiol, yn cael ei berfformio ochr yn ochr â gwaith John Hardy ar gyfer llais a phiano gyda geiriau pwerus gan Ed Thomas, a darn corawl Darcy Cole sy'n archwilio dyfnderoedd galar a chariad.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £4-£8**







## The Bag and The Crow

Sul

**Sul 5 Mai 1pm**

**Arwen Scott** cyfansoddwr

Wedi'i pherfformio gan bypedwr ac adroddwr ac yn seiliedig ar destunau gan ei hen daid i gyfeiliant ei sgôr ei hun, mae Arwen Scott yn adrodd hanes dau ffrind annhebyg yn cyfarfod ar eu taith drwy'r nos.

Theatr Bute

## Yuga

**Sul 5 Mai 4.30pm**

**Tom Wheeler** cyfansoddwr

Cyfunir cerddoriaeth fyw, delweddau wedi'u taflunio a recordiadau mewn archwiliad amlgyfrwng mawreddog o gynnydd a chwymp gwareiddiad, o'i fan cychwyn cyntaf.

Neuadd Dora Stoutzker

## The Life and Times of the Master

**Sul 5 Mai 5.30pm**

**Gan Aldhelm o Beincome a Callan o Scabatore**

Buchedd hynafol wedi'i dramateiddio o'r meistr doeth Ao Remung. Wedi'i pherfformio'n union yn ôl y traddodiadau hynafol, gyda cherddorion, dawnswyr a chorws, mae'r cyfieithiad newydd hwn yn adrodd hanes cyn y dilyw mewn modd diwygiedig nas clywyd o'r blaen.

Theatr Bute

## Listening Posts

AM DDIM

**Sad 4 Mai (all day)**

Cyntedd Carne

## Equivocality

**Sad 4 Mai 1.30pm**

**Takisha Sargent** cyfansoddwr

Gan wrthod natur gyfyngol rolau yn y byd cerddoriaeth glasurol, mae Takisha yn cyfnewid rolau o fewn y broses gyfansoddi, gan roi rheolaeth greadigol i'r perfformiwr trwy recordio darnau byrfyfyr rhydd.

Stiwdio S4C

## Soundbar

**Sad 4 Mai 5.30pm**

Cyntedd Carne

## Safe Land?

**Sul 5 Mai 2pm, 3pm & 4pm**

**Linghan Zhu** cyfansoddwr

Ar ynys anghysbell mae'n ymddangos bod rhywun yn perfformio defod, a chi yw'r aberth. Rydych yn cuddio yn y goedwig, yn goleuo tortsh, ac mae eich antur cyffrous yn dechrau wrth i chi blymio i'r byd hwn o sain, golau ac effeithiau Ambisonig.

Stiwdio S4C
Hyd y perfformiad: 25 munud

## Split

**Sad 4 Mai 6.30pm & 7.30pm**
**Sul 5 Mai 1.30pm & 5pm**

**Isaac Lindley** cyfansoddwr
**Isabelle Carlean-Jones** cyfarwyddwr

Anrhefn y foment. Gadewch i'ch hun gael eich amgylchynu gan SPLIT wrth i Gyntedd Carne ddod yn olygfa yn y byd go iawn, a man meddyliol ein prif gymeriad: Emma Jones.

Cyntedd Carne




## Pedwarawd Binker Golding

**Iau 6 Mehefin 7.30pm**

Bydd y sacsoffonydd gwobrwyedig Binker Golding yn dod â'i bedwarawd, sy'n cynnwys goreuon y sîn jazz yn Llundain, i Gaerdydd am y tro cyntaf gyda set newydd o gerddoriaeth yn seiliedig ar ei albwm sydd eto i'w enwi a gyhoeddir yn 2024. Byddwch yn barod i glywed jazz wedi'i ddylanwadu gan y felan, gwerin ac Americana, ac sy'n dilyn ei albwm clodwiw yn 2022, 'Dream Like a Dogwood Wild Boy'.

**Binker Golding** sacsoffon tenor
**Billy Adamson** gitâr
**Daniel Casimir** bas dwbl
**Jamie Murray** drymiau

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £8-£16**

UNITE STUDENTS


Binker Golding

**Bydd yna hefyd raglen o berfformiadau am ddim gan fyfyrwyr jazz CBCDC, gyda setiau trwy gydol yr ŵyl, gan gynnwys sesiwn boblogaidd AmserJazzTime nos Wener yng Nghyntedd Carne.**



Gŵyl AmserJazzTime Mehefin 2024

## Cwmwl Tystion III/ Empathy Tomos Williams

**Gwe 7 Mehefin 7.30pm**

**Holi ac Ateb ar ôl y sioe**

Bydd Tomos Williams, y trwmpedwr o Gymru, yn dychwelyd gyda'r drydedd fersiwn, a'r olaf, o'i brosiect hynod 'Cwmwl Tystion'. Mae'r perfformiad aml-haenog hwn sy'n cynnwys y gwesteion rhyngwladol Nguyên Lê a Melvin Gibbs ynghyd ag artistiaid jazz a gwerin Cymreig yn archwilio hanes a hunaniaeth Cymru trwy gerddoriaeth a deunydd gweledol. Byddwch yn barod am fyd sain sy'n asio'n gelfydd elfennau o gerddoriaeth jazz, cyfoes, roc a gwerin.

**Tomos Williams** trymped/cyfansoddwr
**Mared Williams** llais
**Eady Crawford** llais/effeithiau
**Nguyên Lê gitâr** drydan
**Melvin Gibbs** gitâr fas
**Mark O'Connor** drymiau
**Simon Proffitt** deunydd gweledol byw

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £8-£16**

UNITE STUDENTS

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Tŷ Cerdd


Tomos Williams



Claire Martin

## Claire Martin gyda Thriawd Martin Sjöstedt

**Sad 8 Mehefin 7.30pm**

Bydd y gantores jazz adnabyddus, Claire Martin OBE, yn aduno â'i thriawd dawnus o Sweden, dan arweiniad y pianydd a'r trefnydd eithriadol Martin Sjöstedt, wrth iddynt gyflwyno lansiad Cymru o'u halbwm diweddaraf 'Almost in Your Arms' (Stunt Records). Mae'r cyngerdd hwn yn addo taith gerddorol ryfeddol sy'n asio'n ddi-dor ganeuon safonol jazz clasurol, fel y trac teitl i'r ffilm 'Houseboat', gyda chaneuon cyfoes gan rai megis Elvis Costello, Rufus Wainwright a Mark Winkler.

**Claire Martin** llais
**Martin Sjöstedt** piano
**Niklas Fernqvist** bas dwbl
**Daniel Fredriksson** drymiau

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £9-£18**

UNITE STUDENTS

# Llŷr Williams Archwilio Athrylith: Haydn i Schumann Datganiad 3

## Iau 2 Mai 7.30pm

**Mozart** Sonata No.12 yn F K.332
**Schumann** Kreisleriana Op.16
**Haydn** Sonata yn E leiaf, Hob. XVI:34
**Schumann** Sonata No.1 yn F llonnod leiaf Op.11

'Rwy'n gorlifo â cherddoriaeth...' mae Kreisleriana Schumann yn plymio i feddwl athrylith dychmygol: cyfansoddwr mor sensitif fel mai cerddoriaeth yw ei fyd cyfan. Yn farddonol, yn chwareus, ac weithiau'n rhyfygus, mae'n gyfle gwych i artist cyswllt CBCDC Llŷr Williams arddangos ei ddawn, ac yn ganolog i ddatganiad sydd wedi'i neilltuo i Haydn, Mozart a Schumann ar eu mwyaf personol, a mwyaf beiddgar.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £12-£24**

UNITE STUDENTS



Llŷr Williams



Yulianna Avdeeva

# Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway: Yulianna Avdeeva

## Sul 16 Mehefin 11am

**Liszt** La lugubre gondola, No.2, S.200/2
**Liszt** Bagatelle sans tonalité, S.216a
**Liszt** Csárdás macabre, S.224
**Liszt** Unstern! - Sinistre, S.208
**Liszt** Legende S.175, No.2 'St. François de Paule marchant sur les flots'
**Beethoven** Sonata yn B feddalnod fwyaf, No.29, Op.106 'Große Sonate für das Hammerklavier'

Mae'r pianydd meistrolgar, Yulianna Avdeeva, sydd wedi ennill nifer o wobrau, yn mynd i'r afael â dau o feistri piano y 19eg ganrif. Chwalodd sonata Hammerklavier Beethoven ffiniau cerddoriaeth y piano: dywedai rhai nad oedd modd ei chwarae. Ac roedd Liszt yn archwilio eithafion newydd o ffantasi a meistrolaeth ar nodau'r piano - gan adael cynulleidfaoedd yn llewygu o gyffro. Rhyfeddod pur, gan bianydd sydd (yng ngeiriau un beirniad) yn 'creu hudoliaeth gerddorol ar amrantiad'.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £18-£22**

UNITE STUDENTS





Mae Gŵyl Gerddoriaeth Siambr Penarth yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed gyda diwrnod o gyngherddau a digwyddiadau yn y Coleg sy'n cynnwys yr artistiaid gwadd Rebecca Evans, Carlo Rizzi a'r actor adnabyddus Samuel West.

Penarth Chamber Music Festival

# Cyngerdd Awr Ginio Pen-blwydd 10 oed 'Schubertiade'

## 12.15pm

Mae'r diwrnod i ddathlu Gŵyl Gerddoriaeth Siambr Penarth yn agor gyda Schubertiade bach, yn cynnwys y caneuon Auf dem Strom a Der Hirt auf dem Felsen (Bugail ar y Graig) gyda noddwr yr ŵyl **Rebecca Evans** a **James Gilchrist** ynghyd â **Ben Goldscheider, Robert Plane** a **Simon Crawford Phillips**. Mae perfformiad o Ffantasi yn C wyllt a meistrolgar Schubert yn cwblhau'r rhaglen gyda'r feiolinydd ifanc rhyfeddol o Hwngari, **Ágnes Langer**.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £15**
**(8-25 oed am ddim)**

# Cyngerdd Gala Pen-blwydd 10 oed


## 7pm

## Sgwrs ar ôl y sioe 5pm

Mae'r cyngerdd Gala yn cynnwys **Carlo Rizzi** a **Rebecca Evans** mewn detholiadau o opera olaf Strauss, Capriccio. Bydd y chwechawd llinynnol agoriadol gwefreiddiol a'r olygfa gloi hyfryd yn cael eu huno'n un gan yr actor **Samuel West** yn darllen naratif a gomisiynwyd gan **Syr David Poutney**, gan ein cludo i fyd mympwyol aristocrataidd Paris.

Roedd y cyfarwyddwyr artistig **David Adams** ac **Alice Neary** wrth eu bodd yn sicrhau comisiwn gan y cyfansoddwr o Gymru, **Huw Watkins** - bydd ei Driawd Llinynnol yn cael perfformiad premier byd ochr yn ochr â Rhagymadrodd ac Allegro cain Ravel.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £25**
**(8-25 oed am ddim)**



Rebecca Evans



Carlo Rizzi



James Gilchrist

# Cyngerdd Hwyr Pen-blwydd 10 oed

## 9.15pm

Mae penllanw digwyddiadau'r dydd yn cynnwys cerddoriaeth gan ddau gyfaill mynwesol, Francis Poulenc a Benjamin Britten, wedi'u clymu ynghyd gan chwyrlïad araf rhyfeddol o Hora Lunga gan Ligeti ar gyfer un fiola. Bydd Trio Poulenc ar gyfer Obo, Baswn a Phiano yn agor y cyngerdd a Serenâd hwyrol Britten ar gyfer Corn Tenor a Llinynnau gyda'r unawdwyr **James Gilchrist** a **Ben Goldscheider** yn cloi'r mewn modd myfyriol.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £10**
**(8-25 oed am ddim)**

### Cynnig Tocyn Dwbl

**Archebwch ar gyfer 7pm a 9.15pm – y ddau gyngerdd am £30 – gan arbed £5**

## Ensemble Unawdwyr Llinynnol CBCDC a Fenella Humphreys

**Mer 12 Mehefin 1.15pm**

**Anna Meredith** Tull
**Nico Muhly** Drones and Violin Material in E flat
**Purcell** Fantasia on one note
**Pärt** Fratres
**Mark Boden** Chasing Sunlight
**Shostakovich** Chamber Symphony

Mae'n rhyfeddol beth allwch ei wneud gyda thîm o chwaraewyr llinynnol sydd wedi'u dewis â llaw – ac mae Symffoni Siambr Shostakovich yn un o'r darnau hynny sy'n aros yn eich cof. Dyma uchafbwynt gwefreiddiol cyngerdd o gerddoriaeth sy'n rhychwantu pedair canrif, wedi'i chwarae gan unawdwyr llinynnol CBCDC dan gyfarwyddyd y feiolinydd Fenella Humphreys – sydd wedi'i chanmol gan gylchgrawn Gramophone am ei 'llwyrfeddianaeth a'i hyfrydwch'.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £8**

UNITE STUDENTS



Fenella Humphreys



## Sinfonia Cymru: Regeneration

**Sad 15 Mehefin 7.30pm**

Gan roi bywyd newydd i harddwch oesol Vivaldi, Vaughan Williams a cherddoriaeth werin draddodiadol, mae Simmy Singh, Delia Stevens ac Will Pound yn defnyddio'r llwyfan cyngerdd i ailddychmygu dyfodol ein planed.

Mae'r rhaglen ryfeddol hon yn dadorchuddio byd lle mae cerddoriaeth yn dod yn gatalydd ar gyfer gobaith a dychymyg, gan herio'r status quo sy'n wynebu'r genhedlaeth nesaf yn ddiofn.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £3-£18**

Mae Regenerate yn cael ei gefnogi gan The Open Fund for Organisations gan y Sefydliad PR

## Gŵyl REPCO | 10-14 Mehefin

**Gŵyl o gynyrchiadau a arweinir gan fyfyrwyr ar draws cerddoriaeth a drama, gan gynnwys cyfansoddiadau newydd wedi eu gosod i farddoniaeth Gymraeg, opera newydd, theatr gerdd a chydweithrediad cerdd a chelf.**





Mae'n bleser gennym gyflwyno tri chyngerdd y tymor hwn fel rhan o'n partneriaeth weithgar gydag Opera Cenedlaethol Cymru.

## Arddangosfa Arweinwyr gyda Cherddorfa WNO

**Maw 14 Mai 1.15pm**

**Strauss** Agorawd Die Fledermaus
**Borodin** Agorawd Tywysog Igor
**Sibelius** Finlandia
**Dvořák** Dawns Slafonig Op 72 Rhif 2 yn E leiaf
**Dvořák** Dawns Slafonig Op 46 Rhif 1 yn C fwyaf

Mae Cerddorfa o'r radd flaenaf Opera Cenedlaethol Cymru yn un o brif ensembles y DU, a heddiw mae yn nwylo ysbrydoledig rhai o arweinwyr ifanc disgleiriaf CBCDC. Byddwch yn barod am un alaw ogoneddus ar ôl y llall, o fwrlwm Fiennaidd Die Fledermaus gan Johann Strauss i ddrama epig Finlandia gan Sibelius, yn y cyngerdd awr ginio pwerus hwn.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £6-£12**

## Cerddorfa WNO a CBCDC: Masquerade

**Mer 26 Mehefin 7.30pm**

**Anna Clyne** Masquerade
**Rhian Samuel** Tirluniau (Landscapes)
**Amy Beach** Symffoni yn E Leiaf, Op 32 'Gaelic'
**David Jones** arweinydd

Rhowch chwaraewyr ifanc disglair Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ynghyd ag aelodau o gerddorfa WNO ac mae'r canlyniad yn ysbrydoliaeth ar bob lefel. Cewch chi brofi hynny, yn fyw, wrth i David Jones arwain rhaglen ddisglair sy'n cynnwys symffoni epig Amy Beach, a thirlun Cymreig godidog gan Rhian Samuel.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £8-£16**

UNITE STUDENTS

## Croesi Ffiniau: Cerddorfa WNO

**Iau 11 Gorffennaf 7.30pm**

**Taith ysbrydoledig trwy dapestri cerddorol cyfoethog Canol Ewrop.**

**Smetana** Bartered Bride Overture
**Mozart** Clarinet Concerto
**Schumann** Symphony No.4
**Tomáš Hanus** arweinydd
**Thomas Verity** clarinét

Cymerwch sedd ac ymunwch â Cherddorfa WNO a Chyfarwyddwr Cerddoriaeth WNO Tomáš Hanus wrth iddynt gychwyn ar daith gyffrous trwy rai o gampweithiau gorau Canol Ewrop, gan ddechrau gyda'r Agorawd fuddugoliaethus o The Bartered Bride gan Smetana.

Neuadd Dora Stoutzker
**Tocynnau £5-£20**





## Forget-me-not Chorus

**Sul 28 Ebrill 2.30pm**

**Dementstoria**

I lawer, prin yw'r wybodaeth ond mawr yw'r ofn am fywyd gyda dementia. Archwiliad artistig teimladwy o realiti'r cyflwr yw Dementstoria. Mae geiriau Louise Osborn, wedi'u gosod i gerddoriaeth gan David George Harrington, yn rhesymoli dirgelwch y cyflwr gan anrhydeddu profiad bywyd y côr.

Mae'r soprano Fflur Wyn a chantorion CBCDC, Anna Simmons a Conor Cooper, yn ymuno â Forget-me-not Chorus i rannu'r comisiwn ingol hwn.

Neuadd Dora Stoutzker

**Tocynnau £6-£10**

Cefnogir yn hael gan Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston



## Côr Affinity: The Best of British!

**Gwener 19 Gorffennaf 7.30pm**

Mae Côr Merched Affinity yn falch iawn o fod yn dychwelyd i CBCDC gyda'u dathliad o gerddoriaeth Brydeinig. Yn cwmpasu popeth o'r Beatles a Wham! i theatr gerddorol Prydeinig, gan ymweld â'r Alban, Lloegr, Iwerddon ac wrth gwrs Cymru ar y ffordd, bydd gan y noson gofiadwy hon rywbeth at ddant pawb. Anaml y clywir Karl Jenkins, John Rutter, Andrew Lloyd Webber a Coldplay mewn un noson, felly peidiwch ag oedi cyn cael eich tocynnau ar gyfer 'The Best of British!'

Neuadd Dora Stoutzker

**Tocynnau £10-£12**

## Only Boys Aloud Academi

**Llun 22 Gorffennaf 7pm**

Mae Academi Only Boys Aloud yn gwrs preswyl dwys, wythnos o hyd, sy'n darparu hyfforddiant pellach ym mhob agwedd o gerddoriaeth, canu a pherfformio i aelodau hŷn Only Boys Aloud. Ymunwch â ni ar gyfer ein cyngerdd diwedd cwrs sy'n arddangos amrywiaeth o gerddoriaeth gorawl o repertoire corau meibion traddodiadol i glasuron theatr gerdd. Yn ymuno â'r Academi bydd Jessica Robinson a gyrrhaeddodd Rownd Derfynol Canwr y Byd Caerdydd.

Neuadd Dora Stoutzker

**Tocynnau £20-£22**



Only Boys Aloud







Dwy Opera, Mawrth 2024

## Rownd Derfynol Gwobr John Ireland

**Llun 29 Ebrill 7pm**

Ym maes cerddoriaeth siambr a chân y gwnaeth John Ireland ei enw yn gyntaf fel cyfansoddwr, a dyma'r genres yr oedd yn fwyaf cartrefol ynddynt drwy gydol ei yrfa. Mae'n bleser gan CBCDC groesawu Gwobr John Ireland yn ôl i'r Coleg am y drydedd flwyddyn, gan roi'r cyfle i'n myfyrwyr gydweithio mewn perfformiadau o gerddoriaeth y meistr siambr hollbwysig hwn, gan arwain at rownd derfynol gyhoeddus ar gyfer perfformwyr ensemble a lleisiol.

Neuadd Dora Stoutzker

**Tocynnau £5-£10**

## Gwobr Opera Janet Price

**Mer 1 Mai 2pm**

Sefydlwyd Gwobr Opera Janet Price yn 2017 i gefnogi hyfforddiant uwch cantorion opera ifanc. Mae meini prawf y gystadleuaeth flynyddol yn adlewyrchu cred hirsefydlog Janet yn y traddodiad bel canto Eidalaidd fel elfen sylfaenol yng nghelfyddyd perfformio operatig ac yn gwobrwyo'r canwr sy'n gallu cyfleu naws dramatig orau trwy iaith. Ymunwch â ni wrth i aelodau Ysgol Opera David Seligman gystadlu am y wobr fawreddog hon.

Neuadd Dora Stoutzker

**Tocynnau £5-£10**

## Rownd Derfynol Gwobr Syr Ian Stoutzker

**Mer 5 Mehefin 6pm**

Cyfrannodd Syr Ian Stoutzker yn hael tuag at adeiladu neuadd gyngerdd y Coleg ac mae'n rhoi gwobr flynyddol i'n myfyriwr cerddoriaeth gorau, i'w dyfarnu trwy gystadleuaeth. Ar ôl coroni'r Bariton Edward Kim yn enillydd Gwobr Llais Syr Ian Stoutzker 2023, ymunwch â'n cystadleuwyr yn y rownd derfynol offerynnol wrth iddynt gystadlu am yr anrhydedd eitha.

Neuadd Dora Stoutzker

**Tocynnau £6-£12**

## The Big Blast! Gweithdy Band Pres gyda Dr Robert Childs

Sad 27 Ebrill
12.45pm-4.20pm

Bydd Dr Robert Childs, yr arweinydd rhyngwladol, yn arwain prynhawn cyffrous o gerddoriaeth wych, gan ddiweddu gyda chyngerdd anffurfiol. Agored i chwaraewyr pres ifanc o safon Gradd 5 ac uwch.

**Nifer cyfyngedig o lefydd ar gael**

## Galw ar bob Cerddor Ifanc!

Sad 27 Ebrill
3pm-4.30pm

Dewch i ymweld â ni am daith a sgwrs am ein cyrsiau i gerddorion ifanc 8 i 18 oed a gynhelir ar ddyddiau Sadwrn..

**I archebu lle e-bostiwch junior.conservatoire@rwcmd.ac.uk**



## Ymgysylltu â'r Gymuned yn CBCDC

**Mae ein tîm Ymgysylltu â'r Gymuned yn cefnogi darpar fyfyrwyr a sefydliadau addysgol i wneud CBCDC yn lle i astudio ynddo ac ymweld ag ef, trwy rymuso a chefnogi pobl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol.**

Mae'r tîm yn cyflwyno ystod eang o weithgarwch ymgysylltu, gan weithio ar draws pob agwedd ar y Coleg gyda darpar fyfyrwyr, grwpiau cymunedol, ysgolion, colegau, aelodau cynulleidfaoedd, sefydliadau partner, gwneuthurwyr penderfyniadau a'r cyhoedd yn ehangach.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Guy O'Donnell, Partner Ymgysylltu â Chymunedau: guy.odonnell@rwcmd.ac.uk www.rwcmd.ac.uk/community/widening-access-to-rwcmd**



**Hoffai'r coleg ddiolch i'r cyrff cyhoeddus, unigolion, ymddiriedolaethau, sefydliadau a noddwyr sy'n ein cefnogi.**

**The college would like to thank the public bodies, individuals, trusts, foundations and sponsors who support us.**

**rwcmd.ac.uk/thankyou**

**Llywydd | President**
HRH The former Prince of Wales

**Cadeirydd | Chair**
Michael Plaut OBE

**Is-Lywyddion**
**Vice Presidents**
Philip Carne MBE FRWCMD
Rhodri Talfan Davies BA (Hons) Oxon
Sir Anthony Hopkins CBE FRWCMD
Professor Uzo Iwobi CBE
Dame Gwyneth Jones CBE FRWCMD
Captain Sir Norman Lloyd-Edwards KCVO, GCStJ, RD*, JP, RNR
Menna Richards BA FRWCMD
Lady Anya Sainsbury FRWCMD
Michael Sheen FRWCMD
Sir Ian Stoutzker CBE FRWCMD
Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD
Edward Thomas FRWCMD

**Cylch Llywyddion Ysgol Opera David Seligman**
**The David Seligman Opera School Circle Of Presidents**
Rebecca Evans CBE FRWCMD
Sir Brian McMaster CBE FRWCMD
Sir David Pountney CBE FRWCMD
Carlo Rizzi FRWCMD
Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD

Mae'r Ysgol Opera David Seligman wedi ei chefnogi gan rodd David Seligman.
The David Seligman Opera School is supported by the David Seligman gift.

**Unigolion | Individuals**
Dame Shirley Bassey FRWCMD
The Biss Family
Philip Carne MBE FRWCMD and Christine Carne FRWCMD
Professor Indira Carr
Hywel and Mary George
The late Eira and Don Halley
The late Mair Haywood
Linda and Tony Hill
The late Edwin James
The late Keith James
The late Leonard and Marian Jones
The late Elaine Hugh-Jones
The late Arthur Morris Jones
The late Peter Kearney
The late Barbara Knapton and Kathleen Cavill
The family of the late Sir Charles Mackerras CBE FRWCMD
Samantha Maskrey
Sean Mathias
The late Eluned McGrenary
Gregory Nasmyth and the Hon. Samantha Rowe-Beddoe
Robin and Sophia Neill
Richard Parry
Alan Peterson OBE, Maggie Peterson & Hywel Peterson
The late Gwenllian Phillips in memory of her husband
The late Phoebe Ida Phillips
Dr David Pollak
Janet Price FRWCMD
The late Eileen Price
The late Trevor Pugsley
John Rath and John Underwood
The late Ron Redwood
Carlo Rizzi FRWCMD
The late Lord Rowe-Beddoe DL and Lady Rowe-Beddoe
The late David Seligman OBE FRWCMD and the Philippa Seligman legacy
The late Jacqueline Skarvellis
Sir Ian Stoutzker CBE FRWCMD
Sir Howard Stringer FRWCMD and Lady Jennifer Stringer
Peter and Janet Swinburn
Babs and Debs Thomas
The late Neil and Mary Webber
Ted and Val Yates
Catherine Zeta-Jones CBE FRWCMD

**Cymorth Busnes**
**Business Support**
Steinway
S4C

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau**
**Trusts and Foundations**
The Albert and Eugenie Frost Music Trust
The Antares Trust
The Anthony G Woolcott Charitable Trust
The Julian Bream Trust
British Schools & Universities Foundation
The D'Oyly Carte Charitable Trust
The Gareth Jones Trust
The Gaynor Cemlyn Jones Trust
Sir John Gielgud Charitable Trust
The Girdlers' Company Charitable Trust
The Helen Rachael Mackaness Charitable Trust
UK friends of the Felix Mendelsohn Bartholdy Foundation
The Nick Lewis Memorial Trust
The Simon Gibson Charitable Trust
The South Square Trust
The Spielman Charitable Trust
The Starmer Jones Music Trust Fund
The Talbot House Trust
The Thriplow Charitable Trust
The Waterloo Foundation

**Cylch Y Cadeiryddion**
**The Chairs' Circle**
Hugo and Elinor Blick
John Derrick and Preben Oeye
Mr and Mrs Vyvyan and Valerie Ferrer
Richard Lloyd-Owen and Patricia Cabrera
Roger Munnings CBE and Karen Munnings
The late Lord Rowe-Beddoe DL and Lady Rowe-Beddoe
Peter Saunders OBE
Atlantic Property Development PLC (Babs Thomas)





**Cylch '49 | The '49 Circle**
Diolch i'r rhai sydd wedi cofio CBCDC yn eu hewyllys.

Thanks to those who have remembered RWCMD in their will.

**Cyswllt | Connect**
Diolch i'n haelodau *Cyswllt* a *Cyswllt* Cyfeillion, sydd wedi eu henwi ar ein gwefan, am eu cefnogaeth ffyddlon o'r Coleg a'i fyfyrwyr.

Y tymor hwn, mae *Cyswllt* yn cefnogi Macbeth a berfformir gan ein Cwmni Richard Burton.

Thanks to our *Connect* and Friends *Connect* members, who are acknowledged on our website, for their loyal support of the College and its students.

**Hoffem hefyd ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at Gronfa Caledi Myfyrwyr a Chronfa Bwrsariaeth y Coleg, y rheini sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad ein rhaglen MA Opera 360 newydd a phawb sy'n rhoi gwobrau blynyddol.**

**We would also like to thank everyone who has contributed to the College's Student Hardship and Bursary Funds, those who have contributed towards the development of our new MA Opera 360 programme and all who donate annual prizes.**

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FR FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Elusen Gofrestredig 1139282
Registered Charity 1139282

**Cymorth Busnes | Business Support**

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau | Trusts & Foundations**

**Cyrff Cyhoeddus | Public Bodies**

# Digwyddiadau | Events

Haf | Summer 2024

| Dyddiad \| Date | Digwyddiad \| Event | Lleoliad \| Venue |
|---|---|---|
| 23 Ebr \| Apr-22 Mai \| May | Giant Props Exhibition | Oriel Linbury Gallery |
| 26 Ebr \| Apr-28 Meh \| June | AmserJazzTime | Cyntedd Carne Foyer |
| 29 Ebr \| Apr | John Ireland Prize Final | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 27 Ebr \| Apr | The Big Blast! Brass Band Workshop \| Gweithdy Pres | Various \| Amrywiol |
| 28 Ebr \| Apr | Forget Me Not Chorus: Dementoria | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 1 Mai \| May | Janet Price Opera Prize | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 2 Mai \| May | Llyr Williams: Exploring Genius Recital 3 | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 2-17 May \| Mai | Exhibition of selected artwork from 'Welcome to Wales' by Panela Howard | Oriel Linbury Gallery |
| 3-5 Mai \| May | Atmospheres 2024 | Various \| Amrywiol |
| 4 May \| Mai | Sound Bar | Cyntedd Carne Foyer |
| 6-7 Mai \| May | Musical Theatre Showcase | Theatr Richard Burton Theatre |
| 14 Mai \| May | Conductors Showcase with the WNO Orchestra | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 15 Mai \| May | Cabaret at the College | Cyntedd Carne Foyer |
| 24-31 Mai \| May | NEW '24 | Various \| Amrywiol |
| 23-29 Mai \| May | Sweet Charity | Theatr Sherman Theatre |
| 5 Meh \| June | Sir Stoutzker Prize Final | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 6-8 Meh \| June | AmserJazzTime Festival | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 10-14 Meh \| June | REPCo Festival | Various \| Amrywiol |
| 12-18 Meh \| June | Balance 2024 | Various \| Amrywiol |
| 12 Meh \| June | RWCMD String Soloists Ensemble & Fenella Humphreys | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 15 Meh \| June | Sinfonia Cymru: Regeneration | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 16 Meh \| June | Steinway International Piano Series: Yulianna Avdeeva | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 26 Meh \| June | Classical Café: Sax Choir | Cyntedd Carne Foyer |
| 26 Meh \| June | WNO and RWCMD Orchestras | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 26-30 Meh \| June | Puppetry: Spawn! | The Old Library \| Yr Hen Lyfrgell |
| 27 Meh \| June-2 Gorff \| July | Little Women: The Broadway Musical | Theatr Sherman Theatre |
| 27 Meh \| June | Sound Bar | Cyntedd Carne Foyer |
| 28 Meh \| June-2 Gorff \| July | Britten: A Midsummer Night's Dream | Theatr Richard Burton Theatre |
| 29 Meh \| June | Penarth Chamber Music Festival | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 2 Gorff \| July | Bizet: Doctor Miracle | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 19 Gorff \| July | Affinity Choir: The Best of British! | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 11 Gorff \| July | WNO Orchestra: Crossing Borders | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 22 Gorff \| July | Only Boys Aloud Academi | Neuadd Dora Stoutzker Hall |

**Ewch I | Visit**
**www.rwcmd.ac.uk/whats-on**

MIX Paper from responsible sources FSC® C106170

The Royal Welsh College of Music & Drama is part of the University of South Wales Group
Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru